**TGAU**

3010NA0-1

S23-3010NA0-1

**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN UWCH

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

Yn y cerddi mae'r beirdd **yn cyfleu gobaith mewn sefyllfa anodd**.

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.

Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu y cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. [40]

**Gweld y Gorwel**

Yn *rehab* y colli nabod – sŵn traed
sy'n troi'r awr ddiddarfod,
sŵn y byw diflasa'n bod.

Yn *rehab*, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,
bod drwy'r daith hunanol
wna *druggie'n* dod o'i rigol.

Yn *rehab* o dan label, – yn nheilchion
ergydion ei gawdel
gwrid ei gariad yw gorwel.

Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,
rhanna ias cyfarfod,
y sŵn byw melysa'n bod.

Aneirin Karadog

**Ymwelwyr**

Daethant eto heddiw i'r ward
â'u *pwysïau o flodau i sirioli'r lle.
Dod yn sblash o liw
iddi gael arogli'r llethrau,
anadlu'r pridd a gweld yr haul.

Dod â'u cylchgronau taenu clecs
i'w chadw rhag gwallgofi'n ei chell.
Dod yn gusanau i gyd
i rannu cyfrinachau
am *helbulon ysgol a chariad newydd,
am gigio i guriad *Gwibdaith Hen Frân
a Chowbois Rhos Botwnnog.

Ac er i fysedd yr heulwen
wthio'u ffordd drwy ffenestri'r ward
gan ddawnsio'n ysgafn ar wynder gobennydd
gwyddai fod y gaeaf yn gafael
a dieithrwch nos yn cau amdani.

Hwythau'n byw celwydd
ac yn rhyw ddisgwyl fesul *ffun
y deuai pelydryn, un pelydryn
i oleuo ei byd.

Geraint Lloyd Owen

**Geirfa**

* pwysïau – mwy nag un tusw / bwnshied
* helbulon – helyntion
* Gwibdaith Hen Frân a Chowbois Rhos Botwnnog – grwpiau pop Cymraeg
* ffun – anadl

**DIWEDD Y PAPUR**